



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr

Pecyn Gwybodaeth Ymgeisydd

Cynnwys

Croeso gan Gadeirydd yr Awdurdod Tân	3
Pwy ydym ni	4
North Wales; A Place To Live, Work And Visit	6
Y Swydd	8
Beth allwn ni ei gynnig i chi	9
Trosolwg o'r broses ddethol	10
Disgrifiad Swydd	12
Manyleb y Person	14
Sgiliau Cymraeg	16
Amserlen Recriwtio	17
Sut i wneud cais	17
Cyfarwyddyd ynglŷn â sut i gwblhau'r Ffurflen Gais	18
Gwybodaeth bellach	19



Croeso gan Gadeirydd yr Awdurdod Tân

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr nesaf Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae gan yr Awdurdod, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, enw da rhagorol yng Nghymru a thu hwnt. Mae gennym hanes o ddarparu gwasanaethau brys ac ataliol rhagorol i gymunedau Gogledd Cymru trwy ein staff ymroddedig sydd â mynediad at y cyfarpar a'r adnoddau gorau sydd ar gael.

Rydym yn falch o'n cyflawniadau, yn enwedig gan fod llawer ohonynt wedi'u gwneud yn sgil cefndir ariannol anodd.

Bydd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr presennol, Dawn Docx, yn ymddeol ym mis Rhagfyr 2026 ac rydym yn chwilio am ymgeisydd eithriadol gyda'r cyfuniad angenrheidiol o weledigaeth, brwdfrydedd a gwytnwch i gymryd yr awenau yn ei lle. Mae hwn yn gyfle prin i weithio mewn rôl heriol a fydd yn gofyn am arweinyddiaeth gref, sgiliau gwleidyddol a chyfathrebu a gwerthfawrogiad datblygedig o'r amgylchedd cymdeithasol ehangach. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei barchu'n fawr am ansawdd ei waith partneriaeth ac mae ganddo broffil uchel mewn arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus. Disgwylir i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr chwarae rhan lawn a gweithredol yn y gwaith hwn. Yn ogystal, mae'r rôl yn mynnu bod perthnasoedd yn cael eu ffurfio a'u datblygu gyda'r bobl hynny sydd mewn swyddi uchel iawn o fewn Llywodraeth Cymru. Mae cyswllt agos rheolaidd ar y lefel hon yn elfen allweddol o'r rôl.

Gogledd Cymru yw un o'r ardaloedd harddaf i fyw a gweithio ynddi yn y Deyrnas Unedig gyfan. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru nid yn unig yn delio ag ardaloedd trefol a diwydiannol ond hefyd yn gweithredu mewn rhai o'r lleoliadau gwledig mwyaf anghysbell yng Nghymru. Mae pob un yn cyflwyno ei heriau ei hun, ac rydym yn chwilio am ymgeisydd sydd nid yn unig yn gwerthfawrogi beth yw'r heriau hynny ond sy'n gallu cyflwyno atebion arloesol ac ymarferol iddynt.

Hyderaf y byddwch yn gweld y posibilrwydd o fod yn Brif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr nesaf Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rôl a fydd yn ysgogi ac a fydd yn rôl gyffrous. Os ydych o'r farn bod gennych y rhinweddau i ymgymryd â'r rôl heriol hon, yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



Pwy ydym ni

Pwrpas Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw Atal, Diogelu ac Ymateb. I wneud hyn rydym yn cyflogi mwy na 950 o staff mewn rolau gweithredol a chymorth.

Rydym yn gwarchod tua 2,400 milltir sgwâr o Ogledd Cymru, sy'n gartref i dros 700,000 o drigolion ac yn ymweld â channoedd o filoedd bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydyn ni'n mynd i tua 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau nad ydynt yn dân fel gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn mynychu tua 2,000 o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn larymau ffug.

Rydym yn gwneud gwaith atal tân helaeth trwy ymweld â phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tân, felly rydym yn ymweld â busnesau a gweithleoedd i wneud yn siŵr bod y bobl sy'n gyfrifol am y safleoedd hynny yn cadw eu trefniadau diogelwch tân i fyny i'r safon.


Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf.

I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth, ewch i [wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru](http://www.tangogleddcymru.llyw.cymru).



Ein Gwerthoedd Craidd




North Wales; A Place To Live, Work And Visit

Mae Gogledd Cymru yn cynnwys chwe sir wahanol: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam, ac Ynys Môn. Mae pob un yn cynnig ei chymysgedd unigryw ei hun o dreftadaeth, tirwedd a ffordd o fyw, p'un a ydych chi'n chwilio am antur llawn adrenalin, profiadau diwylliannol cyfoethog, neu ansawdd bywyd gwell.

Mae Gogledd Cymru, sy'n gartref i boblogaeth o dros 700,000, yn cyfuno trefi bywiog ag ardaloedd gwledig enfawr. Mae dwysedd poblogaeth yn amrywio'n fawr—o 357 o bobl fesul cilomedr sgwâr yn Sir y Fflint i ddim ond 49 yng Ngwynedd—gan beri ystod amrywiol o risgiau a gofynion ar wasanaethau cyhoeddus. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth gwrdd â'r heriau hyn, gan weithredu o 44 o orsafoedd tân ledled y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys gorsafoedd amser llawn yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, gorsafoedd â chriw dydd mewn lleoliadau fel Bae Colwyn, Llandudno, Bangor a Chaergybi, a 36 o orsafoedd cadw (ar alwad) sy'n gwasanaethu cymunedau llai. Yn ogystal ag ymateb i argyfwng, mae'r Gwasanaeth yn canolbwyntio'n gryf ar waith atal a diogelwch yn y cartref, gan helpu i gadw cymunedau'n ddiogel ac yn wydn.

Mae Gogledd Cymru yn enwog fel un o'r rhanbarthau harddaf ac amrywiol yn y DU. Mae ei dirwedd yn cynnwys popeth o draethau tywodlyd eang a phentiroedd dramatig i ddyffrynnoedd heddychlon, rhostir a chopau garw Eryri. Mae twristiaeth yn sbardun economaidd allweddol, gyda gweithgareddau yn amrywio o linellau sip uchel, beicio mynydd a rafftio dŵr gwyn i deithiau cerdded arfordirol hamddenol, ymweliadau â safleoedd hanesyddol ac amser a dreulir mewn trefi marchnad bywiog. Mae'r ardal hefyd yn gartref i bedwar castell Treftadaeth y Byd UNESCO - Conwy, Caernarfon, Harlech a Biwmares - yn ogystal â chaerau Rhufeinig, aneddiadau Celtaidd, maenordai Tuduraidd, a safleoedd treftadaeth ddiwydiannol y chwareli llechi a Thraphont Ddŵr Pontcysyllte.



Er gwaethaf ei chymeriad gwledig, mae Gogledd Cymru yn elwa o gysylltedd trafndiaeth ardderchog. Mae gwibffordd yr A55 a'r brif reilffordd yn ymestyn ar draws y rhanbarth, gan gysylltu â chanolfannau masnachol allweddol yng Nghaer, Lerpwl a Manceinion. Mae llwybrau rheilffordd hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i Lundain, Birmingham a dinasoedd mawr eraill y DU, tra bod Porthladd Caergybi yn cynnig mynediad i fferi i Iwerddon.

Mae'r sîn bwyd a diod yn ased mawr arall, gyda chynhyrchion lleol yn cael eu dathlu trwy farchnadoedd ffermwyr, gwyliau bwyd, a nifer cynyddol o gynhyrchwyr arobryn. O fwyd môr ffres a chig oen lleol i gawsiau artisan, cwrw, jin a gwinoedd, mae'r rhanbarth yn cefnogi sector lletygarwch ffyniannus. Mae opsiynau bwyta yn amrywio o fwytai cain a gastropubs i gaffis croesawgar ac ystafelloedd te traddodiadol.

Mae iaith a diwylliant wrth wraidd bywyd yng Ngogledd Cymru. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae tua 18% o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg, er bod y ffigwr yn sylweddol uwch mewn siroedd fel Gwynedd (76%) ac Ynys Môn (66%). Mae dwyieithrwydd yn rhan werthfawr a chefnogaeth o fywyd bob dydd, yn enwedig mewn gwasanaethau cyhoeddus, lle mae gan drigolion yr hawl i gyfathrebu naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi staff yn weithredol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i wasanaethu cymunedau yn well.

Mynegir balchder diwylliannol drwy ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod - gŵyl genedlaethol o iaith Gymraeg, cerddoriaeth, llenyddiaeth a pherfformiad. Er bod yr iaith yn chwarae rhan ganolog, mae'r digwyddiadau hyn yn agored ac yn gynhwysol i bawb. Mae'r Eisteddfod Ryngwladol a gynhelir bob mis Awst yn Llangollen yn croesawu perfformwyr ac ymwelwyr o bob cwr o'r byd, gan ddathlu treftadaeth leol a'r celfyddydau byd-eang.

Mae cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus yn nodwedd ddiffiniol o fywyd rhanbarthol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bartner allweddol yn y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, sy'n dwyn ynghyd uwch gynrychiolwyr o'r chwe chynghor sir, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru a chyrff sector cyhoeddus eraill. Mae'r fforwm hwn yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau ar y cyd, gwasanaethau cryfach a chanlyniadau gwell i'r rhanbarth. Yn ogystal, mae gan Gogledd Cymru ei Fforwm Gwydnwch Lleol ei hun, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Bwrdd Uchelgais Economaidd, Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Bwrdd Diogelu, pob un ohonynt yn cefnogi cydweithio ar draws gwasanaethau tra'n cydnabod cymeriad unigryw pob ardal leol.

P'un a ydych chi'n meddwl am adleoli, archwilio cyfleoedd gyrfu, neu'n syml yn cynllunio ymweliad, mae Gogledd Cymru yn cynnig cyfuniad rhyfeddol o dirwedd, ffordd o fyw, diwylliant ac ysbryd cymunedol.



Y Swydd

Rydym yn falch iawn o gynnig cyfle cyffrous i ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr ar sail barhaol. Mae hon yn swydd arweinyddiaeth allweddol o fewn ein Gwasanaeth, ac rydym yn chwilio am unigolion eithriadol sy'n angerddol am gyflawni newid ystyrlon, gwasanaethau cyhoeddus sy'n perfformio'n dda, ac arweinyddiaeth gref, sy'n cael ei harwain gan werthoedd.

Yn dilyn cyfnod sylweddol o newid ac adolygiad annibynnol o ddiwylliant diweddar, mae'r Gwasanaeth ar daith hanfodol o wella, sy'n canolbwyntio ar amddiffyn ein cymunedau a blaenoriaethu ein pobl. Fel Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr byddwch yn parhau i helpu i lunio pennod newydd yn nyfodol y Gwasanaeth, gan ddod â gweledigaeth, uniondeb ac ymdrech i gyfnod o adnewyddu a thrawsnewid.

Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Tân i sicrhau bod amcanion strategol yn cael eu trosi i gyflwyno gwasanaethau rhagorol. Gyda gweithlu o ryw 950 o staff gweithredol, gwasanaethau corfforaethol a thimau cymorth yn gweithredu ar draws 44 gorsaf dân, bydd eich arweinyddiaeth yn allweddol wrth ddiwallu anghenion rhanbarth amrywiol sy'n esblygu.

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sydd nid yn unig â hanes blaenorol o gyflawni strategol a gwelliant parhaus, ond hefyd sy'n dangos deallusrwydd emosiynol, craffter gwleidyddol, a'r cydnherthedd personol i arwain mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Byddwch yn arweinydd cynhwysol sy'n gallu meithrin consensws, ysgogi atebolrwydd ac ysbrydoli ymdeimlad o bwrpas.

Mae'r swydd hon wedi'i chyfyngu'n wleidyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai (1989). Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) safonol, mynd drwy broses fetio'r heddlu, a chliriad diogelwch. Bydd hyfforddiant rheoli strategol yn cael ei roi i'r rhai nad oes ganddynt y profiad hwn eisoes.

Bydd gofyn i chi hefyd ddarparu darpariaeth strategol wrth gefn fel rhan o rota'r Prif Swyddog a bod wedi'i leoli yn ein Pencadlys yn Llanelwy. Bydd angen i ymgeiswyr fyw yng Ngogledd Cymru, neu bod â chartref yng Ngogledd Cymru, ac rydym yn hapus i gefnogi adleoli lle bo angen.

Mae'r rôl yn gyfle i lunio dyfodol gwasanaeth, dylanwadu ar newid diwylliannol, a helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel a chryfach i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.



Beth allwn ni ei gynnig i chi

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu bod buddsoddi yn ein pobl yn allweddol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer ein cymunedau. Fel rhan o'n tîm, byddwch yn derbyn:

Pecyn Cyflog a Buddion Cystadleuol:

- Cyflog cystadleuol sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau'r rôl. Tua £166,000- £169,000 y flwyddyn.
- Bydd cerbyd yn cael ei ddarparu
- Mynediad at Gynllun Pensiwn cyfrannol cyflogwr.
- Hawl gwyliau blynyddol hael, 35 diwrnod gwaith y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus
- Cymorth i adleoli os oes angen

Bydd y penodiad yn cael ei wneud yn unol â'r Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol (Llyfr Aur) fel y'i diwygir yn lleol o bryd i'w gilydd.

Ymrwymiad i'ch Lles:

- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, gan gynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithwyr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapïau corfforol a mynediad i gampfeydd y Gwasanaeth
- Trefniadau gweithio hyblyg lle bo'n bosibl, gan eich helpu i gydbwysu eich gwaith a'ch bywyd personol.
- Amrywiaeth o fanteision ychwanegol megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad at ostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr a darparwyr hamdden a gwasanaethau.

Gweithle Cynhwysol a Chefnogol:

- Diwylliant sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn weithredol.
- Rhwydweithiau cefnogol a mentrau i sicrhau eich bod yn teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi a'ch grymuso i lwyddo.

Cyfleoedd i Wneud Gwahaniaeth:

- Y cyfle i gyfrannu at wasanaeth sy'n rhan hanfodol o ddiogelu a gwella bywydau pobl yng Ngogledd Cymru.
- Rôl lle bydd eich arweinyddiaeth yn llunio dyfodol gwasanaethau tân ac achub yn uniongyrchol, gan ysgogi arloesedd a gwelliant ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Byw a Gweithio yng Ngogledd Cymru:

- Y cyfle i weithio yn un o ardaloedd harddaf y DU, gydag arfordiroedd trawiadol, mynyddoedd, a threftadaeth ddiwylliannol fywiog.
- Cyfle i gofleidio a chyfrannu at ddiwylliant Cymru, gan gynnwys cefnogaeth i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Drwy ymuno â ni, byddwch nid yn unig yn datblygu'n broffesiynol ond hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth greu Gogledd Cymru fwy diogel, cryf a chydnerth.

Oriau Gwaith ac Argaeledd

Fel Prif Swyddog Tân bydd disgwyl i chi weithio'r oriau hynny a allai fod yn angenrheidiol i gyflawni eich dyletswyddau yn briodol.

Yn unol â'r rota 'Strategol', mae'n ofynnol i chi ddarparu gwasanaeth strategol 24 awr. Mae eich tâl gwasanaeth rota eisoes wedi'i gynnwys yn eich cyflog.

Lleoliad

Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Ffordd Salesbury, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JJ neu unrhyw un o leoliadau eraill y Gwasanaeth. Mae'r swydd hon yn cynnwys teithio ledled ardal y Gwasanaeth, Cymru a lleoliadau eraill. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio.

Trosolwg o'r broses ddethol

Os bydd eich cais ar y rhestr fer yn llwyddiannus, byddwch yn cael eich gwahodd i fynychu'r broses ddethol ganlynol. Bydd gofyn i ymgeiswyr fynychu pob cam o'r broses cyn gwneud penderfyniad i benodi'r ymgeisydd llwyddiannus.

Asesiad Seicometrig

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gwblhau cyfres o asesiadau seicometrig sydd wedi'u cynllunio i werthuso gallu gwybyddol, ymddygiadau arweinyddiaeth, a phriodoleddau personol sy'n berthnasol i rolau uwch arweinyddiaeth. Mae'r asesiadau hyn yn ein helpu i adeiladu darlun cyflawn o addasrwydd pob ymgeisydd ar gyfer y swydd a llywio'r broses gyfweld derfynol. Bydd cyfarwyddiadau llawn yn cael eu darparu, a bydd yr holl asesiadau yn cael eu cynnal trwy blatfform ar-lein diogel.

Asesiad Cyfryngau

Fel uwch arweinydd, mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol â'r cyfryngau a'r cyhoedd yn hanfodol. Bydd ymgeiswyr yn cymryd rhan mewn asesiad cyfryngau sy'n efelychu mater proffil uchel neu sensitif. Gall hyn gynnwys ffug gyfweiliad neu senario briffio i'r wasg. Pwrpas yr asesiad yw gwerthuso eich arddull gyfathrebu, eglurder a hyder o dan bwysau. Darperir deunyddiau paratoi ymlaen llaw.

Cyfweiliad Rhestr Hir (os oes angen)

Os derbynnir nifer uchel o geisiadau, gellir gwahodd ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweiliad ar-lein i helpu i leihau'r gronfa ymgeiswyr cyn symud ymlaen i'r cam nesaf o'r broses ddethol.

Panel Penodiadau Aelodau a Chyflwyniad

Bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gyflwyno adroddiad ar bwnc penodol a chyflwyno'r adroddiad hwn i'r Panel Penodiadau. Bydd ymgeiswyr yn cael eu cyfweld gan y panel a byddant yn cyflwyno cyflwyniad ffurfiol ar eu hadroddiad. Mae hwn yn gyflwyniad a chyfweiliad ffurfiol ac mae'n gyfle i chi esbonio i'n Aelodau Etholedig pam y dylech gael eich dewis ar gyfer y rôl. Bydd ymgeiswyr yn cael y themâu allweddol a'r meysydd ffocws ar gyfer y cyfweiliad (30 munud) ymlaen llaw i'w galluogi i baratoi'n briodol.

Addasiadau rhesymol

Os hoffech ofyn am drefniadau a fydd yn eich cynorthwyo i gwblhau'r broses ddethol, mae'n bwysig rhoi gwybod i ni o'r rhain ymlaen llaw. E-bostiwch Bennaeth yr Uned Adnoddau Dynol a Chymorth Busnes yn llinos.gutierrez-jones@tangogleddcymru.llyw.cymru i gael cymorth neu wybodaeth.

Yn Dilyn y Dewis

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig amodol a bydd yn cael gwiriadau cyn cyflogaeth gan gynnwys cliriad meddygol, gwiriad DBS, gwiriad Diogelwch Cenedlaethol a Gwiriad Heddlu, gwiriadau cymwysterau proffesiynol a geirdaon cyn cyhoeddi cynnig cyflogaeth ffurfiol. Bydd adborth yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr unwaith y bydd y broses wedi dod i ben.

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd	Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr
Yn atebol i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Diben y Swydd yn Gyffredinol

Mae'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr yn atebol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), gan sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â rheoliadau ariannol, rheolau sefydlog a chynllun dirprwyo'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ogystal â'r holl ofynion deddfwriaeth a llywodraethiant perthnasol.

Bydd yr amodau gwasanaeth ar gyfer y swydd fel y nodir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Tân Brigadau Tân Awdurdodau Lleol (Y Llyfr Aur).

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. Mae'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr, fel pennaeth Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth, yn gyfrifol am benderfynu ar weledigaeth a chyfeiriad strategol GTAGC a rheoli'n effeithiol yr holl wasanaethau a ddarperir gan GTAGC ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod GTAGC wedi'i drefnu'n iawn i fodloni holl ofynion cyflwyno'r gwasanaethau a'r gofynion gweinyddol a defnyddio adnoddau sydd ar gael gyda'r cost-effeithiolrwydd mwyaf posibl ar draws ardal GTAGC.
2. Y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr yw'r cynghorydd proffesiynol i'r Awdurdod Tân ac Achub ar holl faterion y Gwasanaeth Tân ac Achub a materion cysylltiedig eraill.
3. Disgwylir i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr reoli swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sydd mewn grym ar y pryd.
4. Disgwylir i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr ffurfio perthynas waith ardderchog gyda phartneriaid allanol ac asiantaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:-

- Clerc a Thrysorydd yr Awdurdod Tân ac Achub
- Swyddogion etholedig cenedlaethol a lleol
- Llywodraeth Cymru a swyddogion awdurdodau lleol
- Uwch gydweithwyr o asiantaethau partner megis Heddlu Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Uwch arweinwyr o awdurdodau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.
- Uwch arweinwyr o awdurdodau tân ac achub eraill
- Swyddogion lleol a chenedlaethol yr undebau llafur cydnabyddedig

Arall

Mae swydd y Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr wedi'i chyfyngu'n wleidyddol o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Mae diogelu yn gyfrifoldeb i'r holl staff, a disgwylir i bawb fod yn wiliadwrus ac yn rhagweithiol wrth sicrhau diogelwch a lles eraill.



Manyleb y Person

Mae Manyleb y Person yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sy'n angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio yn y broses rhestr fer a chyfweld ar gyfer y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hyn gan y byddwch ond yn cael eich rhoi ar y rhestr fer os byddwch chi'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Cymwysterau, Gwybodaeth a Phrofiad

Hanfodol

Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt

Addysg hyd at lefel gradd

Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus perthnasol ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus

Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol, gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg

Yn gefnogol iawn i'r Gymraeg ac i ddiwylliant Cymru, gydag ymrwymiad ffurfiol i gyflawni Lefel 3 yn y Gymraeg o fewn 24 mis i'r penodiad, lle bo angen. Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn darparu hyfforddiant a chymorth priodol i hwyluso cyflawni'r cymhwyster hwn.

Dewisol

Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol

Presenoldeb llwyddiannus ar y Rhaglen Arweinyddiaeth Weithredol

Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg

Sgiliau, Galluedd a Phrofiad

Hanfodol

Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt

Profiad diweddar ar lefel rheoli strategol mewn gwasanaeth tân ac achub awdurdod lleol.

Dealltwriaeth drylwyr o'r fframwaith y mae sector cyhoeddus Cymru yn gweithredu o fewn ac ymwybyddiaeth o'r heriau y mae awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn eu hwynebu

Profiad o weithio ar lefel uwch gyda phartneriaid strategol ar draws y sector cyhoeddus
Dealltwriaeth o'r ystod o faterion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau tân ac achub mewn amgylchedd gwledig
Y gallu i ddarparu arweinyddiaeth weladwy i bob aelod o'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac i gymell yn unigol a thrwy weithio mewn tîm
Lefelau uchel o wydnwch personol ynghyd ag egni, ymrwymiad, hyder a brwdfrydedd er mwyn bodloni gofynion y rôl
Tystiolaeth o weithredu ar lefel strategol mewn sefyllfaoedd gorchymyn neu argyfwng aml-asiantaethol
Y lefelau uchaf o uniondeb personol
Profiad o reoli gweithlu mawr ac amrywiol, gyda thystiolaeth glir o ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob agwedd ar fywyd proffesiynol a phersonol
Profiad o lwyddiant ar lefel uwch wrth gyflawni gofynion gweithredol sefydliad mawr, cymhleth yn erbyn cefndir o ofynion cystadleuol, cyfyngiadau ariannol a newid cyflym
Profiad o reoli ariannol ar lefel strategol

Gofynion Perthnasol Eraill

Hanfodol

Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt

Trwydded yrru lawn gyfredol.

*Gofynnir am dystiolaeth o gymwysterau a fydd yn cael ei dilysu cyn cadarnhau'r penodiad.

Sylwch: Bydd rhaid i chi allu dangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol er mwyn cyrraedd y rhestr fer.

Sgiliau Cymraeg

Lefel 3

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo ein bod wedi cymryd mater yr iaith o ddifrif ers blyneddau lawer. Wrth gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a chwrdd â disgwyliadau'r gymuned leol, rydym hefyd yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r Gwasanaeth yn sgil cynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae arbed bywydau a lleihau risg yn rhan ganolog o'n cenhadaeth ac mae mater yr iaith yn hanfodol i lwyddiant ein cenhadaeth.

Ar gyfer y swydd hon, mae'r gofyniad o ran y Gymraeg wedi'i osod ar lefel 3, ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u rhestru isod.

Maes Sgiliau	Gofynion Safonau'r Gymraeg
Siarad / Gwrando	- Gallu deall hanfod sgysiau yn y gwaith. - Gallu ymateb i geisiadau syml sy'n gysylltiedig â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. - Gallu gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml. - Gallu mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd. - Gallu deall cyfarwyddiadau pan fydd iaith syml yn cael ei defnyddio.

Darllen / Ysgrifennu

- Yn gallu deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a gwybodaeth nad yw'n arferol ar faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni.
- Yn gallu ysgrifennu gohebiaeth anffurfiol fer sy'n gysylltiedig â gwaith, gan ddefnyddio meddalwedd ar gyfer gwirio gramadeg a sillafu.

Arall

- Deall ymrwymadau ein Gwasanaeth yn unol â [Safonau'r Gymraeg](#).
- Gweithio gyda'r Swyddog Iaith Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Bydd asesiad Cymraeg byr yn cael ei gynnal ar ddechrau'r gyflogaeth a bydd gan ymgeiswyr nad ydynt eisoes yn siarad Cymraeg i lefel 3 24 mis o'u penodi i'r rôl i gyflawni hyn.

Rydyn ni'n cydnabod bod dysgu iaith yn cymryd amser ac ymrwymiad a bod y gofyniad hwn yn ychwanegol at ddysgu rôl newydd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael eu cefnogi i gyflawni'r lefel ofynnol.

Amserlen Recriwtio

Gweithgaredd Recriwtio	Dyddiad
Dyddiad cau:	25 Medi 2026
Cysylltir ag ymgeiswyr:	30 Medi 2026
Asesiadau: Seicometrig a'r Cyfryngau	I'w gadarnhau
Cyfweliad Rhestr Hir Ar-lein (os oes angen)	2 Hydref 2026
Cyfarfod Rhanddeiliaid Mewnol ac Allanol	15 Hydref 2026
Panel Cyfweld Penodi Aelodau:	16 Hydref 2026
Awdurdod Tân i'w gymeradwyo	19 Hydref 2026

Sut i wneud cais

1. Ceisiadau

Dylai ymgeiswyr gysylltu â Christine Walker ar 07815 660229 neu christine@novelushrandrecruitment.co.uk am becyn cais. Mae'n ofynnol iddynt lenwi ffurflen gais safonol yr Awdurdod Tân sydd yn y pecyn. Gellir defnyddio taflenni ychwanegol ynglŷn â manylion eich profiad gwaith. Ni dderbynnir CVs. Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau at Gareth Owens yn Gareth.Legal@flintshire.gov.uk

2. Canolwyr

Rhaid bod modd cysylltu â'r canolwyr a nodir ar eich ffurflen gais cyn y cyfweliad terfynol. Dylai canolwyr hefyd allu rhoi sylwadau o brofiad uniongyrchol ar eich addasrwydd ar gyfer y swydd hon a'u bod nhw wedi gweithio gyda chi yn ystod tair blynedd diwethaf eich cyflogaeth.

3. Proses Ddethol

Bydd y broses ddethol fel a ganlyn:

(a) Bydd eich ffurflen gais wedi'i chwblhau yn cael ei hystyried gan y Prif Swyddog Llywodraethiant, Cyngor Sir y Fflint a'r Rheolwr Corfforaethol, Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol, Cyngor Sir y Fflint, a fydd yn paratoi rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer cyfweliad. Mae'n bwysig bod eich cais yn ymdrin yn llawn â gofynion Manyleb y Person gan y bydd y rhestr fer yn gwbl seiliedig ar y meini prawf ynddi.

b) Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i ddod i gyfweliad gyda phanel o 6 aelod sy'n cynnwys un aelod etholedig o bob awdurdod lleol gyda chefnogaeth uwch swyddogion. Gofynnir i ymgeiswyr a ddewisir ar gyfer cyfweliad ymgymryd â nifer o asesiadau a bydd gofyn iddynt baratoi a rhoi cyflwyniad ar ddechrau'r cyfweliad. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu ymlaen llaw.

(c) Yn dilyn y cyfweliadau, bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr a ffefrir yn cael gwybod bod angen iddynt fynd i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub. Pwrpas y cyfarfod hwn yw cyflwyno'r ymgeisydd/ymgeiswyr a ffefrir gyda'r bwriad o gadarnhau penodiad.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar eich cais, neu os oes gennych ymholiadau nad ydynt wedi'u hateb gan yr wybodaeth ar y wefan hon, cysylltwch â'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Weithredwr, **Dawn Docx drwy (01745) 535 250 neu Christine Walker, Ymgynghorydd Recriwtio ar gyfer Novelus ar 07815 660229**

Cyfarwyddyd ynglŷn â sut i gwblhau'r Ffurflen Gais

1. Cwblhewch bob adran o'r Ffurflen Gais mor fanwl â phosibl. Os nad yw adran yn berthnasol i chi, ysgrifennwch 'Amh.' (amherthnasol) neu N/A (not applicable) yn y gofod a ddarperir.
2. Defnyddiwch briflythrennau ac inc du wrth ysgrifennu neu deipio eich cais gyda maint ffont 11 o leiaf.
3. Os yw gyrru yn un o ofynion y swydd (fel y nodir ym Manyleb y Person), bydd gofyn i chi ddarparu cod unigryw gwirio trwydded os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Ewch i <https://www.gov.uk/view-driving-licence> am ragor o wybodaeth.
4. Dim ond ymgeiswyr sy'n bodloni'r holl Feini Prawf Hanfodol (fel y'u nodir ym Manyleb y Person) fydd yn gallu cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad; gellir cyfeirio at Feini Prawf Dymunol os bydd nifer sylweddol o ymgeiswyr am swydd wag. Ni ellir derbyn datganiadau o ffaith a/ neu gasgliadau fel tystiolaeth ar y cam llunio rhestr fer, felly rhwch enghreifftiau clir o dystiolaeth berthnasol, er enghraifft:

Meini Prawf Hanfodol: Gwybodaeth am raglenni Microsoft Office a dealltwriaeth ohonynt.

Derbyniol: Yn fy rôl bresennol mae'n ofynnol i mi gynhyrchu adroddiadau ar gyfer y sefydliad ar wariant misol. Rwy'n defnyddio Microsoft Access i ddarparu gwybodaeth ystadegol gyda'r fformiwlâu angenrheidiol i gyfrifo'r is-gyfansymiau a'r cyfansymiau ar gyfer pob mis a diwedd blwyddyn. Yna byddaf yn cyflwyno'r wybodaeth mewn adroddiad i'r Bwrdd gan ddefnyddio Microsoft Word gan ddefnyddio testun a graffiau i ddangos yr wybodaeth rifiadol.

Ddim yn Dderbyniol: Mae gennyf wybodaeth am raglenni Microsoft Office a dealltwriaeth ohonynt.

5. Sicrhewch fod eich cais yn rhoi manylion ynghylch pam mae gennych ddiddordeb yn y rôl a pha sgiliau a phrofiad y gallwch eu cynnig i'r rôl. Mae sgiliau a phrofiad a enillwyd trwy gyflogaeth, gwaith gwirfoddol neu sefyllfaoedd cymdeithasol a domestig i gyd yn ddilys. Ni fydd CVs sydd ynghlwm wrth Ffurflenni Cais yn cael eu darllen na'u hystyried ar y cam llunio rhestr fer.
6. Yn unol â Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ac yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974 a Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, nid yw'r Gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu manylion unrhyw euogfarnau 'wedi eu disbyddu', oni bai, fodd bynnag, bod y swydd yr ydych yn gwneud cais amdani yn ymwneud â gweithio gydag oedolion neu blant sy'n agored i niwed – yna rhaid i chi ddatgelu pob collfarn, rhybudd, cerydd neu rybudd terfynol.

Bydd pob swydd sy'n cynnwys cyswllt rheolaidd â grwpiau sy'n agored i niwed yn destun Datgeliad Cofnodion Troseddol Manylach (sy'n datgelu euogfarnau heb eu disbyddu a rhai sydd wedi'u disbyddu) a bydd angen Datgeliad Cofnodion Troseddol lefel Sylfaenol ar gyfer pob swydd arall (dim ond euogfarnau heb eu disbyddu a ddatgelir).

Mae Manyleb y Person yn nodi a oes angen Datgeliad Cofnodion Troseddol Manylach ynteu un Sylfaenol ar gyfer y swydd benodol.

I gadarnhau a yw euogfarn 'wedi'i disbyddu' ynteu 'heb ei disbyddu' ewch i www.disclosurecalculator.org.uk.

7. Sicrhewch fod eich Ffurflen Gais yn cael ei dychwelyd erbyn hanner dydd ar y dyddiad cau – ni ellir ystyried ceisiadau hwyr.

Gwybodaeth bellach

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac yn annog ceisiadau gan unigolion beth bynnag eu sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Cyn gwneud unrhyw gynigion ffurfiol, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gael Prawf Cyffuriau ac Alcohol.



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service